Cyhoeddus

# Arweiniad syml i Lywodraethiant RESP

## Sut y bydd cenhedloedd a rhanbarthau'n llunio dyfodol eu system ynni

August 2026



NESO
National Energy System Operator

# Llywodraethiant sy'n rhoi cenhedloedd a rhanbarthau yn ganolog i gynllunio ynni



**Bydd Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) yn nodi'r gofynion y bydd eu hangen ar system ynni i hybu twf economaidd ac i gyflenwi ynni dibynadwy, glân a fforddiadwy yng Nghymru, yr Alban a naw rhanbarth Lloegr.**

Yn hanesyddol, mae cynllunio ar gyfer trydan, nwy, gwres, trafnidiaeth a datblygu lleol yn aml wedi digwydd ar wahân, gan achosi ansicrwydd o ran pa seilwaith fydd ei angen a pha bryd. Bydd RESP yn dwyn y meysydd hyn ynghyd fel un elfen gydlynus o anghenion ynni'r dyfodol. Bydd eu llywodraethu'n rhoi rôl ffurfiol i arweinyddion ym mhob cenedl a rhanbarth wrth lunio a chymeradwyo'r cynllun. Mae RESP yn rhan o rôl ehangach NESO wrth gynllunio system ynni'r dyfodol ym Mhrydain Fawr; gallwch ddysgu mwy am hyn drwy ymweld â'r adran Cynllunio Strategol ar ein gwefan.

Mae'r arweiniad hwn wedi'i anelu at y sawl sydd â diddordeb mewn cyfrannu at lywodraethiant RESP yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Mae'n adlewyrchu methodoleg ddrafft RESP, sy'n amodol ar gymeradwyaeth Ofgem a'r Ysgrifennydd Gwladol. Gallwch ddarllen y ddrafft o'r fethodoleg, sy'n cynnwys drafft o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grwpiau llywodraethu a gynhwysir yn y canllaw hwn, drwy ymweld â RESP – Ymgynghoriad ar Fethodoleg ar ein gwefan.

**Bydd gan bob cenedl a rhanbarth Fwrdd Strategol**, a fydd yn cael cymorth **Gweithgor Llywodraeth Leol a Gweithgorau thematig**. Bydd arbenigwyr ynni annibynnol NESO, sydd wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn gweithio â'r grwpiau hyn i roi gwedd system gyfan ar flaenoriaethau lleol a thystiolaeth dechnegol. Bydd grwpiau Prydain gyfan yn helpu i gydlynu materion sy'n croesi ffiniau neu sy'n gofyn am ddull cenedlaethol cyson.

## Pam cymryd rhan?

Am y tro cyntaf bydd gan arweinyddion lleol rôl ffurfiol i ddylanwadu ar anghenion ynni eu hardal, gan helpu i wireddu uchelgeisiau datblygu a buddsoddi lleol. Drwy gymryd rhan bydd cyfle i ddod ag uchelgeisiau, blaenoriaethau a thystiolaeth leol yn uniongyrchol i gynllunio ynni tymor hir.

Bydd aelodau'r Bwrdd Strategol a'r Gweithgorau'n helpu i ganfod ym mhle mae angen seilwaith i alluogi twf economaidd, gan adeiladu sylfaen dystiolaeth ar y cyd a fydd yn llywio cynllunio rhwydwaith dosbarthu a phenderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

## Y Bwrdd Strategol

**Yr hyn y bydd yn ei wneud.** Ym mhob cenedl a rhanbarth, bydd y Bwrdd Strategol yn llywio datblygiad y RESP, gan roi cyfeiriad strategol, ystyried y prif ddewisiadau a'r cyfaddawdu a fydd eu hangen, a helpu i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol i gyd-fynd ag amcanion lleol. Mae gan y Bwrdd Strategol rôl ffurfiol mewn cymeradwy'r RESP.

**Cyfansoddiad yr aelodaeth.** Disgwylir y bydd gan bob Bwrdd hyd at 16 o aelodau a byddant yn cael eu Cadeirio gan NESO. Daw'r aelodau o'r rhwydweithiau dosbarthu trydan a nwy , gyda hyd at chwe chynrychiolydd yn siarad ar y cyd ar ran llywodraeth leol a hyd at bedwar aelod 'traws-sector' a fydd yn mynegi safbwyntiau'r system ynni gyfan ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban hefyd yn aelodau o Fwrdd y genedl berthnasol.

Yn achos Llywodraeth Leol, lle ceir awdurdodau strategol, byddwn yn disgwyl eu bod yn cael eu cynrychioli, gyda gweddill y lleoedd awdurdod lleol yn cael eu rhannu rhwng gweddill y genedl neu ranbarth hyd at derfyn o chwe lle. Bydd NESO yn ymdrechu i gael cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o leoedd ac ystod o ffactorau cymdeithasol, fel y bydd y Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir.

**Y sawl rydym yn chwilio amdanynt.** Bydd holl aelodau'r Bwrdd Strategol yn meddwl yn strategol, yn deall ac yn herio tystiolaeth gymhleth ac yn ymdrechu i sicrhau consensws. Byddant yn dangos barn gadarn, dryloyw a bydd ganddynt yr awdurdod a'r hygrededd i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n cefnogi'r genedl neu'r rhanbarth yn eu cyfanrwydd.

Rydym yn disgwyl y bydd aelodau'r Bwrdd yn arweinyddion profiadol, gan weithredu fel Cyfarwyddwyr neu ar lefel neu gyfatebol. Yn achos Llywodraeth Leol, gall aelodau'r Bwrdd fod naill ai'n aelodau etholedig gyda phortffolio perthnasol neu'n uwch swyddogion. Gall cynrychiolwyr enwebu rhywun yn eu lle, cyhyd â'u bod yn gweithio ar lefel yr un mor uchel.

Er mwyn cyflwyno safbwyntiau systemau cyfan ehangach i'r bwrdd, rydym yn chwilio am hyd at bedwar aelod 'traws-sector', a all rannu profiad helaeth yn y genedl neu ranbarth a gwybodaeth drylwyr am y pontio ynni system gyfan, rhwydweithiau gwres, defnydd masnachol o ynni, diwydiant, morol, trafnidiaeth, tlodi tanwydd, ynni cymunedol neu fuddiannau defnyddwyr.


## Y Gweithgor Llywodraeth Leol

**Yr hyn y bydd yn ei wneud.** Bydd awdurdodau lleol ledled y genedl neu'r rhanbarth yn gallu cyfrannu drwy'r Gweithgor Llywodraeth Leol. Bydd yn cynnig llwybr ffurfiol i lywio'r RESP drwy ddwyn ynghyd gynlluniau, blaenoriaethau, tystiolaeth a chyfyngiadau lleol: rhoi prawf ar gynigion sy'n dod i'r amlwg; a chynghori'r Bwrdd Strategol. Bydd cynrychiolwyr Llywodraeth Leol ar y Bwrdd Strategol gyda'i gilydd yn cynrychioli'r gweithgor ar y lefel honno.


**Y sawl rydym yn chwilio amdanynt.** Cynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n deall blaenoriaethau a chynlluniau eu lle ac a all weithio ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Byddant yn cyfrannu tystiolaeth at y broses, yn gwrando ar anghenion lleoedd gwahanol, yn helpu i ganfod tir cyffredin ac yn hysbysu cydweithwyr yn eu hawdurdod. Rydym yn rhagweld y bydd yr aelodaeth yn cynnwys swyddogion mewn meysydd fel strategaethau ynni a chynllunio strategol.

## Gweithgorau Thematig


**Yr hyn y byddant yn ei wneud.** Bydd Gweithgorau Thematig yn cynnig profiad ymarferol a gwybodaeth arbenigol i ddatblygiad y RESP. Bydd yr aelodau'n helpu i adolygu tystiolaeth gynllunio, canfod blaenoriaethau rhanbarthol ac yn tynnu sylw at risgiau, ansicrwydd a lle bydd angen cyfaddawdu. Gall yr union strwythur amrywio'n ôl cenedl neu ranbarth, ond disgwylir iddynt ymdrin â'r themâu canlynol:




- **Galw Defnyddwyr a Masnachol:** ystyried materion fel anghenion defnyddwyr preswyl a masnachol, gwres, defnydd o ynni masnachol a hyblygrwydd yn y galw.



- **Cynhyrchu a Storio:** ystyried materion fel cynhyrchu trydan, ynni cymunedol, storio a chysylltiadau.



- **Datgarboneiddio Diwydiannol:** ystyried materion fel anghenion ynni diwydiannol, llwybrau datgarboneiddio a gofynion seilwaith.



- **Trafnidiaeth:** ystyried materion fel trafnidiaeth teithwyr a chludo nwyddau, seilwaith gwefru a thanwyddau amgen.

**Y sawl rydym yn chwilio amdanynt.** Ymarferwyr ac arbenigwyr pwnc gyda phrofiad cyflenwi perthnasol neu wybodaeth am y sector yn eu cenedl neu ranbarth. Dylai aelodau allu rhannu tystiolaeth a phersbectif sector ehangach, rhoi prawf mewn modd adeiladol ar gynigion sy'n dod i'r amlwg a chanfod sut y gallai dewisiadau gwahanol effeithio ar gyflawni.

## Gweithredu ar Draws Gweithgorau

Mae llywodraethiant RESP wedi'i ddatblygu gyda galluoedd rhanddeiliaid yn flaenllaw. Nid ydym yn disgwyl i randdeiliaid fod yn aelodau o sawl gweithgor ac ni fyddai mantais i hynny. Drwy gydol datblygiad, bydd NESO yn ymdrechu i ddod â safbwyntiau gweithgorau ynghyd i sicrhau dull systemau cyfan.

## Yr hyn y bydd cymryd rhan yn ei olygu

Bydd cymryd rhan mewn Bwrdd Strategol neu Weithgor yn golygu paratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â cherrig milltir RESP, gan fanteisio ar farn a thystiolaeth lle, sector neu rwydwaith ehangach yr aelodau, ac ymateb i geisiadau sy'n sensitif o ran amser o bryd i'w gilydd.

Rydym yn disgwyl y bydd y cyfranogwyr yn parhau â'u cysylltiad drwy gydol cylch cyntaf RESP, a fydd yn para am ddwy flynedd, tan fis Rhagfyr 2028, ac yn ymrwymo i wyth niwrnod yn ystod y cyfnod hwnnw. Disgwylir y bydd eu cyfranogiad yn wirfoddol ac yn ddi-dâl ac ni fydd yn creu perthynas gyflogedig â NESO, er y bydd modd talu treuliau rhesymol.

Bydd pawb sy'n cyfrannu'n gwneud hynny er budd cyhoeddus ac yn cydymffurfio â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Byddant yn arddangos crebwyll annibynnol, yn datgan buddion perthnasol, yn parchu cyfrinachedd ac yn cyfrannu'n adeiladol at drafodaethau a phenderfyniadau a wneir ar y cyd.

## Sut i Fynegi Diddordeb

Bydd NESO yn ysgrifennu'n uniongyrchol at Awdurdodau Lleol a rhwydweithiau dosbarthu ynni gyda rhagor o gyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb.

Os ydych chi'n dod o sector arall a bod gennych awydd cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Bwrdd Strategol neu Weithgor thematig yn un o genhedloedd neu ranbarthau RESP gweler Cynllunio Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) | Gweithredwr Systemau Ynni.

**NESO**
Faraday House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA
United Kingdom

Registered in England and Wales
No. 11014226

**neso.energy**

NESO
National Energy
System Operator